

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd Dr Altaf Hussain

Ward: Pen-y-fai

Plaid: Y Blaid Geidwadol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Pen-y-fai ar 8 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol lawer o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy [rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau](#) drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaeth

Gwnaeth trigolion Pen-y-fai ymddiried yn fawr ynof fi a'm gallu i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud drostynt pan wnaethant fy ethol fel eu cynghorydd a dibynnais ar yr egwyddorion a oedd bob amser wedi fy ngwasanaethu'n dda drwy gydol fy mywyd gwaith fel llawfeddyg ac AC - i ymddwyn gyda gonestrwydd ac uniondeb gydag ethos o wasanaeth yn sail i hyn.

O fewn fy ychydig wythnosau cyntaf yn y swydd, fy mlaenoriaeth oedd mynd allan i siarad â chymaint o wahanol bobl a sefydliadau â phosibl, pob un â stori i'w hadrodd, yn enwedig yn dilyn cyflwr ofnadwy casgliadau gwastraff Kier gyda channoedd o gwynion a godais gyda CBSP drwy ein llwybr atgyfeirio gan aelodau. Ymhlith yr atgyfeiriadau eraill a wnaed roedd parcio, tipio anghyfreithlon, tyllau yn y ffordd, torri perthi a glaswellt, graeanu ffyrdd, cludiant ysgol, gwasanaethau bws a goleuadau stryd ac ati.

Yn ystod fy ychydig wythnosau cyntaf yn y cyngor, roeddwn yn gallu cael gafael ar help gwych gan yr adran ddemocrataidd wrth i mi ymglyfarwyddo â'r sefyllfa a chan lawer o aelodau o bleidiau eraill ac yn enwedig yr Arweinydd ac aelodau'r Cabinet.

Wrth i mi ddechrau tyfu yn y rôl, deuthum yn fwyfwy cyffrous gan y cyfle o holi cwestiynau ysgrifenedig a llafar atodol yn y Cyngor i dynnu sylw at y materion polisi - yn enwedig ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, addysg, casglu gwastraff, iechyd y cyhoedd a chynnig ar dlodi mislif ac ati.

Mae atebolrwydd wrth wraidd democratiaeth. Braint yw gwasanaethu ar Bwyllgor Craffu 3.

Rwy'n ddiolchgar i'r Arweinydd a'r Cabinet am fy mhenodi yn gynrychiolydd yr awdurdod ar Gyngor Iechyd Cymuned Pen-y-bont ar Ogwr a bwrdd Cyngor Iechyd Cymuned ABM, ac rwy'n mwynhau hyn a hyd yma nid wyf wedi colli unrhyw gyfarfod nac ymweliadau ysbyty.

Yn fuan ar ôl ymuno fel cynghorydd, gwneuthum bwynt o fynd â rheolwyr, yn enwedig o briffyrdd, am ymweliadau safle i edrych ar dyllau yn y ffordd, draeniau, tipio anghyfreithlon, graeanu ac ati a chefais gyfarfod gyda'r adran gynllunio hefyd. Cefais ychydig o gyfarfodydd gyda swyddog ynghylch ffyrdd cerdded diogel a chroesfan i gerddwyr a mesurau gostegu traffig yn y pentref.

Rwy'n drist ei bod wedi cymryd dros 6 wythnos i Kier symud ceffyl marw o'r cae ac yn ystod y cyfnod hwnnw daethom o hyd i sgerbwd ceffyl arall ynghlwm mewn llwyni dros y llif dŵr, ac mae'n bosibl ei fod wedi bod yno am fisoedd lawer.

Rwy'n hapus i mi drefnu cartref i berson digartref a wnaed yn gyflym gan CBSP, ac rwy'n ddiolchgar am hynny.

Rwyf wedi bod yn cynnal Cymhorthfa yn Eglwys yr Holl Saint, Pen-y-fai ar y dyddiadau canlynol 21/7/2017, 28/10/2017, 25/11/2017, 20/01/2018, 24/03/2018, ac 19/05/2018. Mae'r dyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn Postcard from Pen-y-fai, a baratoir gan ffrindiau Eglwys yr Holl Saint.

Rwyf wedi gweithio gyda llywydd Sefydliad y Merched Pen-y-fai wrth blannu pabïau a blodau gwyllt ym Mhen-y-fai mewn ymgynghoriad â Chymoedd i'r Arfordir a chael eu help.

Fel cynghorydd Cyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf rwy'n mynd i gyfarfodydd misol ac yn adrodd i'r cyngor am fy ngweithgareddau yn y pentref.

Gwasanaethais fel llywodraethwr Ysgol Gynradd Gatholig Abercynffig am y 4 blynedd diwethaf tan fis Mawrth 2018, lle roeddwn yn gallu defnyddio fy mhrofiad o fywyd cyhoeddus a datrys problemau ar ran fy etholwyr yn effeithiol er budd y gymuned. Cafodd fy enw ei gymeradwyo'n ddiweddarach ar gyfer fy mhenodi yn llywodraethwr awdurdod lleol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai ym mis Mai 2018.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwy'n helpu'r pentref drwy ddefnyddio'r Gronfa Gweithredu yn y Gymuned - i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer yr arian a geir gan NHCC ar fesurau gostegu traffig ar Heol Pen-y-fai a fydd yn cynnwys gosod 2 arwydd cyflymder mewn ymgynghoriad â Phriffyrdd CBSP, ac, yn ogystal caiff ei ddefnyddio ar gyfer gosod hysbysfwrdd yn y pentref.

Ni chafwyd ymateb gan CBSP i'm galwad i ddarparu croesfan i gerddwyr a llwybr cerdded diogel ar ffordd ddeuol brysur ger y goleuadau traffig, heol Tondy, a dyma fydd ein deiseb nesaf.

Mae fy ail ddeiseb i CBSP (yr wyf yn gweithio arni ar hyn o bryd) yn ymwneud â'r gwasanaethau bws a dynnwyd yn ôl - ar un adeg roedd gan Ben-y-fai 8 bws yr awr i Ben-y-bont ar Ogwr ac mae'r rhain yn parhau i weithredu ond drwy'r Pines gan adael ein henoed a'n plant sy'n mynd i'r ysgol mewn anobaith.

Rwyf wedi cymryd rhan gyda'r trigolion mewn deiseb yn gofyn i CBSP beidio â dinistrio ein pentref drwy roi caniatâd i 20 o dai yn All Saints Way yn ein pentref. Llofnododd mwy na 600 o bobl y ddeiseb hon a gyflwynwyd i'r adran gynllunio yn ddiweddarach.

Cynhaliais fy arolwg fy hun hefyd, gan ofyn y canlynol i'r trigolion:

Cwestiwn 1. "Mae'r Cynghorydd Hussain yn gadarn yn erbyn y datblygiad arfaethedig o 20 o dai ar safle maes glas ym Mhen-y-fai ac a ydynt yn cytuno â'r Cynghorydd Hussain ar hyn ac yn credu y dylai'r cyngor ddod o hyd i dir mwy addas", a ddatgelodd bod holl drigolion Pen-y-fai yn erbyn y datblygiad hwn ac yn cytuno'n llwyr â mi.

Cwestiwn 2. "Pa mor fodlon ydych chi ar Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr lle mae 0 yn anfodlon a 10 yn fodlon iawn", a gwnaeth fy holl drigolion nodi 0 ac mae hynny'n frawychus.

Yn y cyngor mae gennym feddwl a pharch mawr at ein gilydd beth bynnag fo'n cefndir gwleidyddol, ac roedd hynny'n amlwg pan ddewisais y Cynghorydd Phillip White fel fy mentor.

Gweithgareddau/Materion Eraill

1. Cadeirydd, Adsefydlu Brynawel, Brynawel House, Cymru, DU, Ionawr 2018
2. Llywodraethwr Awdurdod Lleol, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Pen-y-fai, Pen-y-bont ar Ogwr, Mai 2018
3. Aelod o'r World Orthopaedic Concern, DU 1985
4. Llywodraethwr, Ysgol Gatholig Sant Robert, Abercynffig, Ebrill 2014 - Ebrill 2018.
5. Ymddiriedolwr Age Cymru Bae Abertawe Mehefin 2016 - Hydref 2017.

Y Cynghorydd Dr Altaf Hussain

Dyddiad: 23 Mai 2018